Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

# Aberporth Bilingual Playgroup

Yng Ngrŵp Chwarae Dwyieithog Aberporth mae ein lleoliad wastad wedi defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg i gyfoethogi dysg a dealltwriaeth iaith y plant. Mae'r Gymraeg wedi bod yn bwysig iawn i ni i gyd fel meithrinfa, nid yn unig gyfathrebu ac addysgu ond i wreiddio a gwehyddu diwylliant a threftadaeth Cymru drwy gydol ein lleoliad.

Cyn cychwyn ar brosiect Camau fe ddefnyddion ni'r Gymraeg yn bennaf yn ein caneuon ac i ddarllen straeon. Roeddwn yn ei ddefnyddio mewn ffordd syml iawn i ddysgu'r plant gan ddefnyddio geiriau sengl ar gyfer gwahanol gategoriau fel, anifeiliaid, rhifau, lliwiau, cerbydau ac ati a chyfathrebu ac anghenion, fel bwyta, yfed, a chysgu.

Fodd bynnag, ers cwblhau Lefel 2 ar brosiect Camau mae wedi gwella'r Gymraeg yn cael ei defnyddio a'i gweithredu'n sylweddol, ar lefel bersonol, fel tîm ac yn y gweithgareddau rydym yn ei ddarparu. Erbyn hyn rwy'n gallu siarad Cymraeg gyda llawer mwy o hyder, a dealltwriaeth ddyfnach o'r iaith. Gallaf roi cyfarwyddiadau gyda mwy o bendantrwydd a hyd yn oed cael sgyrsiau dyfnach gyda phlant gan ddefnyddio fy lefel newydd o rugldeb. Mae'r gallu gen i rŵan i arwain gweithgareddau fel, Joio Dan Pump, o'r blaen nid oedd gen i ddim y cymhwysedd i wneud hynny. Y teimlad mwyaf, ar y cyfan, yw bod yn fwy rhugl yn fy siarad a nealltwriaeth o Gymraeg, gallaf nawr ddarllen llyfrau Cymraeg yn fwy rhugl yn gofyn cwestiynau ac ateb y plant yn fanylach.

Dewiswyd prosiect Camau gan ei fod wedi ei gynllunio'n benodol i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar, gan ganolbwyntio ar ddatblygu ein galluoedd fel tîm i weithio o fewn y lleoliad. Roedd bod mor berthnasol a ffocws yn ein galluogi i ddefnyddio'r sgiliau a ddysgwyd, ar yr un pryd yn y lleoliad wrth wneud y cwrs.

Ers cwblhau'r cwrs, rydym wedi gweld gwelliant sylweddol mewn sawl maes yn ein meithrinfa. Mae 'na fwy o anogaeth rhwng aelodau staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach ac yn gyson yn y lleoliad. Rydym wedi gwreiddio mwy o weithgareddau a straeon Cymraeg yn rhan o'r feithrinfa nag o'r blaen. Ein nod yw parhau â hyn ar gyfer y dyfodol, gan drefnu chwarae, straeon a gweithgareddau yn seiliedig ar y Gymraeg, gan gynnwys teithiau i ddeall diwylliant a threftadaeth Cymru yn well.

Mae'r ffaith bod prosiect Camau ar-lein wedi bod o fudd mawr am amryw o resymau. Mae wedi bod mor ddefnyddiol gweithio ar fy mhwysau fy hun ac yn ffitio'r cwrs o gwmpas bywyd teuluol a gwaith prysur, hefyd gyda'r gallu i gael mynediad ato ar unrhyw adeg o'r dydd. Roedd y ffaith y gallwn weithio o unrhyw le gyda chysylltiad rhyngrwyd yn wych gan ei fod yn rhoi'r hyblygrwydd i mi weithio o leoliadau eraill fel tai aelodau eraill o'r teulu.

Dyluniwyd y cynnwys yn arbennig o dda, roedd gan bob gair Cymraeg ffeil sain i glywed sut mae'n swnio a fideo fel esiampl i helpu'r broses ddysgu. Roedd y gallu i fynd yn ôl drosodd ac ail-adrodd y cynnwys hefyd yn ddefnyddiol iawn yn enwedig wrth ddysgu iaith newydd. Mae gweithio i fy amserlen fy hun wedi bod yn hynod fanteisiol, ond byddai'r cyfle i ymarfer gyda chyfoedion wedi cael ei groesawu. Byddai cysylltu â dysgwyr o leoliadau eraill wedi bod yn gefnogol ac yn werthfawr hefyd.

Mae gen i awydd cryf i barhau i ddysgu gyda phrosiect Camau ar gyfer fy natblygiad proffesiynol parhaus ac yn bersonol gartref gyda theulu a chymuned. Rwy'n credu bod hyn yn cael ei adleisio gan aelodau eraill o staff gan ei fod wedi bod mor werthfawr i bob un ohonom.